# Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

**2022 dsc 1**

## RHAN 2

COFRESTRU A RHEOLEIDDIO DARPARWYR ADDYSG DRYDYDDOL

## PENNOD 1

COFRESTRU DARPARWYR ADDYSG DRYDYDDOL

*Datganiadau terfyn ffioedd*

### 47 Cymeradwyo datganiad terfyn ffioedd

(1) Caiff corff llywodraethu darparwr addysg drydyddol yng Nghymru wneud cais i'r Comisiwn iddo gymeradwyo datganiad terfyn ffioedd arfaethedig sy'n ymwneud â'r darparwr.

(2) Os gwneir cais i'r Comisiwn i gymeradwyo datganiad terfyn ffioedd, rhaid i'r Comisiwn drwy hysbysiad i'r corff llywodraethu o dan sylw naill ai—

- (a) cymeradwyo'r datganiad, neu
- (b) gwrthod y datganiad.

(3) Caiff corff llywodraethu darparwr a chanddo ddatganiad terfyn ffioedd cymeradwy wneud cais i'r Comisiwn iddo gymeradwyo amrywiad i'r datganiad neu gymeradwyo cael datganiad arall yn ei le.

(4) Os yw cais i gymeradwyo amrywiad neu i gymeradwyo cael datganiad arall yn ei le wedi ei wneud, rhaid i'r Comisiwn drwy hysbysiad i'r corff llywodraethu naill ai—

- (a) cymeradwyo'r amrywiad neu'r datganiad arall yn ei le, neu
- (b) gwrthod yr amrywiad neu'r datganiad arall yn ei le.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 47. (See end of Document for details)*

(5) Mae datganiad terfyn ffioedd cymeradwy yn peidio â bod yn gymeradwy os yw'r darparwr y mae'n ymwneud ag ef yn peidio â bod wedi ei gofrestru mewn categori cofrestru a bennir o ran adran 32(2)(b) y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef.

(6) Am ddarpariaeth weithdrefnol ynghylch hysbysiad o dan is-adrannau (2)(b) a (4)(b), gweler adrannau 75 i 78.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 47 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 148(2)**

**I2** A. 47(1)-(5) mewn grym ar 4.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2023/919, **ergl. 3(z)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 47.